TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Mawrth 2022

# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth am y sgriptiau ar gyfer ein cyhoeddiadau ar y trenau ac mewn gorsafoedd.

Diolch i chi am eich amynedd wrth i ni barhau i weithio i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Gallwn ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf isod i chi nawr:

<u>Cyhoeddiadau mewn Gorsafoedd</u>
Rydyn ni wedi gofyn am y sgriptiau ar gyfer ein cyhoeddiadau Saesneg mewn gorsafoedd gan ein cyflenwr, Worldline, a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd TrC wedi cael y sgriptiau.

Nid yw sgriptiau Cymraeg ar gael i'w rhannu ar hyn o bryd gan eu bod wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ramadegol gywir, yn dilyn adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

<u>Cyhoeddiadau ar y Trenau</u>
Mae cyhoeddiadau ar drenau yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd. Mae'r sgriptiau ar gyfer ein trenau MKIV newydd wedi'u hatodi, a chofiwch y bydd yr un sgriptiau'n cael eu defnyddio ar gyfer y fflyd newydd.

Dyma fanylion manwl y cyhoeddiadau ar ein fflyd bresennol:

Cyhoeddi gwasanaeth: *Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer <enw'r orsaf>*
Patrwm Galw: *Bydd y gwasanaeth hwn yn galw yn <enw'r orsaf>, <enw'r orsaf>, <enw'r orsaf>, <enw'r orsaf> ac ati*
Cyrraedd: *Rydyn ni nawr wedi cyrraedd <enw'r orsaf>*

Mae hyn yn bodloni gofynion PRM-TSI (safon ar gyfer pobl ag anawsterau symud - manyleb dechnegol ar gyfer y safon rhyngweithredu).

Mae cyhoeddiadau Teithio'n Saffach Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd ar gael o hyd ar ein gwasanaethau fel a ganlyn:

*"Os gwelwch yn dda, dilynwch ein cyngor Teithio'n Saffach. Mae'n rhaid i chi wisgo gorchudd wyneb oni bai eich bod wedi'ch eithrio. Cynlluniwch ymlaen llaw i osgoi cyfnodau prysur. Cadwch eich pellter a golchwch eich dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio'n rheolaidd. A chofiwch, peidiwch â theithio os ydych chi'n sâl."*

Diolch i chi unwaith eto am eich amynedd. Byddwn yn cysylltu â chi maes o law pan fydd yr wybodaeth sy'n weddill yn cael ei dychwelyd atom gan Worldline (yn amodol ar unrhyw eithriadau).

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".